
OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

LIC21-11

**DEDDF Y GWASANAETH
IECHYD GWLADOL (CYMRU)
2006**

**Cyfarwyddydau'r Gwasanaeth
Iechyd Gwladol (Gwasanaethau
Gofal Llygaid Cymru) 2021**

Gwnaed 24 Chwefror 2021

Yn dod i rym 25 Chwefror 2021

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 13(2)(c) a (4)(c), 203(9) a (10) a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1), yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn.

Enwi, cymhwyso, cychwyn a dod i ben

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru) 2021.

(2) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn—

- (a) yn dod i rym ar 25 Chwefror 2021,
- (b) yn cymryd effaith o 25 Awst 2020, ac
- (c) yn dod i ben ar 31 Mawrth 2021.

Dehongli

2. Yn y Cyfarwyddydau hyn—

ystyr "AILIC" ("*EHEW*") yw Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru;

ystyr "Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru" ("*Eye Health Examination Wales*") yw Gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru sy'n trefnu'r ddarpariaeth o archwiliadau iechyd llygaid i

(1) 2006 p. 42.

gleientiaid y mae'n ofynnol iddynt gael archwiliad o'r fath, rhoi cyngor i gleientiaid o'r fath, eu hatgyfeirio ymlaen i wasanaethau pellach a rhoi gwybod i'r cleientiaid hynny am wasanaethau pellach fel y darperir ar eu cyfer gan Gyfarwyddydau Pwyllgor y Gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid (Cymru) 2016;

ystyr "blwyddyn ariannol" ("*financial year*") yw'r cyfnod o un flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill ac yn dod i ben ar 31 Mawrth;

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board*") yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd yn unol ag adran 11(2) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol cynhaliol perthnasol" ("*relevant host Local Health Board*") yw—

(a) at ddibenion Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a

(b) at ddibenion Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda;

ystyr "cyn-Covid" ("*pre-Covid*") yw cyn 17 Mawrth 2020;

ystyr "GGGC" ("*LVS*") yw Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru;

ystyr "Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru" ("*Low Vision Service Wales*") yw'r gwasanaeth cenedlaethol a elwir Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru sy'n trefnu'r ddarpariaeth o asesiadau golwg gwan a chymorth adsefydlu i gleientiaid ac yn sicrhau'r ddarpariaeth o gymhorthion golwg gwan i gleientiaid fel y darperir ar eu cyfer gan Gyfarwyddydau Pwyllgor y Gwasanaeth Golwg Gwan (Cymru) 2016;

ystyr "Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru" ("*Wales Eye Care Services*") yw Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru a Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru ac mae'n cynnwys unrhyw ofal llygaid brys neu mewn argyfwng a ddarperir fel rhan o'r gwasanaethau hynny;

ystyr "taliad Atodol MCGGLIC" ("*WECSAM Top Up payment*") yw taliad Atodol Misol Cyfartalog Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru y caiff ymarferydd achrededig ddewis ei gael yn unol â Chyfarwyddyd 3;

ystyr "ymarferydd achrededig" ("*accredited practitioner*") yw ymarferydd sy'n bodloni'r holl ofynion achredu a nodir—

(a) at ddibenion Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru, ym mharagraff 9 o'r Fanyleb yn yr Atodlen i Gyfarwyddydau Pwyllgor y

Gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid (Cymru) 2016(1), a

- (b) at ddibenion Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru, ym mharagraff 11 o'r Fanyleb yn yr Atodlen i Gyfarwyddydau Pwyllgor y Gwasanaeth Golwg Gwan (Cymru) 2016(2).

Taliad Atodol Misol Cyfartalog Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru

3. Am y cyfnod sy'n dechrau â 25 Awst 2020 ac yn dod i ben â 31 Mawrth 2021, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol cynhaliol perthnasol gynnig i ymarferydd achrededig y dewis o gael taliad atodol misol cyfartalog Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru am bob mis yn y cyfnod hwnnw yn ad-daliad am ei ddarpariaeth o AILIC a GGGC, a'r swm hwnnw yn daladwy ar y gyfradd fisol a gafodd yr ymarferydd achrededig hwnnw am y cyfnod sy'n dechrau â 17 Mawrth 2020 ac yn dod i ben â 24 Awst 2020 a gyfrifir yn unol â Chyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Taliadau Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru yn ystod y Pandemig COVID-19) (Cymru) 2020(3).

4. Bydd taliad Atodol MCGGLIC ymarferydd achrededig—

- (a) yn cael ei dalu mewn ôl-daliadau misol ar y pedwerydd diwrnod ar ddeg o bob mis calendr, a
- (b) pan fo hawliad gan ymarferydd achrededig am unrhyw fis yn y cyfnod sy'n dechrau â 25 Awst 2020 ac yn dod i ben â 31 Mawrth 2021 yn fwy na swm y taliad Atodol MCGGLIC sy'n daladwy yn unol â Chyfarwyddyd 3, yn cael ei dalu yn swm y taliad Atodol MCGGLIC ac ni fydd unrhyw swm a hawlir sy'n fwy na'r swm hwnnw yn cael ei dalu i'r ymarferydd achrededig.

Amodau sydd ynghlwm wrth y taliad Atodol MCGGLIC

5. Os yw ymarferydd achrededig yn dewis cael y taliad Atodol MCGGLIC yn unol â Chyfarwyddyd 3, nid yw'r taliad Atodol MCGGLIC, neu unrhyw ran ohono, ond yn daladwy os yw'r ymarferydd achrededig yn bodloni'r amodau a ganlyn—

- (a) rhaid i'r ymarferydd achrededig roi tystiolaeth i'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol—

(1) 2016 Rhif 10.
 (2) 2016 Rhif 11.
 (3) LIC20-24.

- (i) bod cyflenwi gwasanaethau yn glynu wrth oriau agor contractiol cyn-Covid yr ymarferydd hwnnw, a
- (ii) o ran cynnal, o leiaf, gymhareb cyn-Covid yr ymarferydd hwnnw o apwyntiadau GIG i apwyntiadau preifat;
- (b) rhaid i'r ymarferydd achrededig, erbyn 9 Ebrill 2021 fan bellaf, gyflwyno—
 - (i) pob hawliad am daliad am ei ddarpariaeth o AILIC a GGGC am y cyfnod sy'n dechrau â 25 Awst 2020 ac yn dod i ben â 31 Mawrth 2021, a
 - (ii) datganiad wedi ei lofnodi sy'n cadarnhau bod unrhyw galedi ariannol o ganlyniad uniongyrchol i effaith COVID-19 ar y practis;
- (c) rhaid i'r ymarferydd achrededig gynnal cofnodion cywir o holl weithgarwch Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru yr ymgymerydd ag ef, gan gynnwys gofal llygaid brys ac mewn argyfwng; a
- (d) rhaid i'r holl wybodaeth a roddir gan yr ymarferydd achrededig i'r Bwrdd Iechyd Lleol cynhaliol perthnasol yn unol â'r paragraff hwn fod yn gywir hyd eithaf gwybodaeth a chred yr ymarferydd achrededig.

6. Os yw'r ymarferydd achrededig yn torri unrhyw un neu ragor o'r amodau ym mharagraff 5, caiff y Bwrdd Iechyd Lleol cynhaliol perthnasol, o dan amgylchiadau priodol, gadw'n ôl daliad Atodol MCGGLIC, neu unrhyw ran ohono, sydd fel arall yn daladwy.

7. Bydd pob taliad Atodol MCGGLIC yn ddarostyngedig i drefniadau Gwirio Ôl-dalu a gwneir unrhyw adennill priodol yn unol â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986 fel y bo'n ofynnol.

Diwygiad i Gyfarwyddydau Pwyllgor y Gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid (Cymru) 2016

8. Ym mharagraff 5 o Atodlen 1 i Gyfarwyddydau Pwyllgor y Gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid (Cymru) 2016(1), ar ôl paragraff 5.1 mewnosoder—

“5.1A. During the period beginning with 25 August 2020 and ending with 31 March 2021, as an alternative to the payment claimed under paragraph 5.1, accredited practitioners may opt

(1) 2016 Rhif 10.

to receive the Wales Eye Care Services Average Monthly Top Up payment as reimbursement for their provision of EHEW for that period and in accordance with the National Health Service (Wales Eye Care Services payments during the COVID-19 Pandemic) (Wales) Directions 2021.
”.

Diwygiad i Gyfarwyddydau Pwyllgor y Gwasanaeth Golwg Gwan (Cymru) 2016

9. Ym mharagraff 7 o Atodlen 1 i Gyfarwyddydau Pwyllgor y Gwasanaeth Golwg Gwan (Cymru) 2016(1), ar ôl paragraff 7.1 mewnoder—

“7.1A. During the period beginning with 25 August 2020 and ending with 31 March 2021, as an alternative to the payment claimed under paragraph 7.1, accredited practitioners may opt to receive the Wales Eye Care Services Average Monthly Top Up payment as reimbursement for their provision of LVSU for that period and in accordance with the National Health Service (Wales Eye Care Services payments during the COVID-19 Pandemic) (Wales) Directions 2021.
”.



Llofnodwyd gan Alex Slade, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Gofal Sylfaenol, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig: 24 Chwefror 2021